



Rydym yn

Gydol mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai, mae'r cyngor yn annog pobl i ymfalchïo yn eu hardal trwy gymryd rhan mewn prosiectau glanhau a helpu i sicrhau bod bwrdeistref sirol Caerffili yn lle mwy gwyrdd a glanach fyth. Mae'r gwaith hwn yn ychwanegol at y gwaith cynnal a chadw a gwella arferol y mae'r cyngor yn ei wneud yn y rheng flaen o ddydd i ddydd.

Mae'r ymgyrch, a fu'n hynod o boblogaidd ymysg trigolion y fwrdeistref sirol y llynedd, yn ymwneud ag arddangos a dathlu golygfeydd a harddwch naturiol trawiadol y fwrdeistref sirol.

Mae nifer fawr o ysgolion a grwpiau cymunedol lleol eisoes wedi cofrestru i gymryd rhan, ac mae'r cyngor am annog mwy o bobl i ymuno â'r ymgyrch.

Meddai'r Cyngorydd David Poole, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, "Mae'r digwyddiad Glanhâd Mawr Gwanwyn yn gyfle gwirioneddol i drigolion o bob oed ddathlu'r

Caerffili!


holl bethau sydd gan ein bwrdeistref sirol i'w cynnig, ac mae hefyd yn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio ochr yn ochr â'r cyngor i chwarae ein rhan o safbwynt sicrhau bod bwrdeistref sirol Caerffili yn parhau'n lle glân, gwyrdd a diogel iawn."

Mae teclynnau codi sbwriel a sachau sbwriel ar gael i drigolion neu grwpiau cymunedol sy'n dymuno cymryd rhan yn y digwyddiad – i gofrestru a chymryd rhan, ffoniwch **01495 235 178**. Yn ogystal gall y cyngor drefnu i gasglu'r sbwriel a gasglwyd, ar ôl y digwyddiad.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad Glanhâd Mawr Gwanwyn ar www.caerffili.gov.uk.

I roi gwybod am unrhyw bryder sydd gennych am yr amgylchedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, cysylltwch â Balchder Stryd Caerffili ar **01443 866 566** neu ewch i www.caerffili.gov.uk/balchderstryd.





Paratowch am Ras 10 Cilomedr Caerffili!

Bydd Castell Caerffili yn darparu'r cefndir syfrdanol ar gyfer ras ffordd deg cilomedr newydd sy'n cael ei threfnu ar gyfer y tro cyntaf eleni.

Mae'r cyngor wedi datgelu cynlluniau i gynnal y Ras 10 Cilomedr Caerffili am y tro cyntaf yr haf hwn. Bydd y cwrs 6.2 milltir yn arwain cyfranogwyr i mewn ac o amgylch canol y dref gyda'r llinell gychwyn a gorffen yng nghysgod y castell canoloesol mawreddog.

Dywedodd Cyng. Dave Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, "Bydd y digwyddiad newydd cyffrous yn cynnig rhedwyr o bob gallu'r cyfle i gymryd rhan. Bydd y digwyddiad yn un drefnus iawn sy'n mynd trwy ein tref hanesyddol ac rydym yn gobeithio denu dros 1,000 o bobl ar gyfer ein ras gyntaf."

Yn ogystal â'r brif ras fe fydd yna hefyd gwrs iau 3 cilomedr i blant dan 16, gan wneud y digwyddiad yn ddiwrnod allan i'r teulu cyfan. Mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddatblygu gan Gyngor Caerffili ac fe'i cefnogir gan Athletau Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd mwy o fanylion am y llwybr a'r broses cofrestru yn cael ei gyhoeddi gan y cyngor yn y dyfodol agos.

Eich Newsline

"Cynhyrchir Newsline gan y cyngor i ddod â'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth atoch o ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau am y cyhoeddiad a byddwn yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â fi os oes unrhyw ymholiadau gennych am y wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn Newsline a byddaf yn danfon eich sylwadau ymlaen at yr adran berthnasol. Cofiwch - cewch fersiynau sain a phrint bras o Newsline ar gais."

Stephen Pugh - Golygydd e-bost: pughs@caerffili.gov.uk

Post: Uned Gyfathrebu, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.



Prisiau prydau ysgol wedi'u rhewi

Am y drydedd flwyddyn yn olynol mae prisiau prydau bwyd yn y fwrdeistref sirol wedi'u rhewi.

Ar hyn o bryd mae prisiau prydau ysgolion cynradd yn £1.80 a phrydau ysgolion uwchradd yn £2.05 heb unrhyw gynyddiad ers 2010, mae hyn yn rhoi Caerffili ar frig y tabl wrth gymharu ag awdurdodau lleol cyfagos.

Mae'r holl ysgolion sy'n cael eu gweini gan wasanaeth arlwy'r cyngor hefyd wedi cwrdd â safon faethlon Blas am Oes; ac eto Caerffili yw'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i gyrraedd y safon yn y sector ysgolion uwchradd.

Dywedodd Cyng Dave Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, "Fel gwasanaeth arlwy'r awdurdod lleol ar y brig, rydym yn falch iawn ein bod ni wedi gallu darparu ein plant gyda bwyd maethlon a blasus am brisiau rhad."

Enillodd tîm arlwy'r cyngor y Wobr Anrhydeddus Tîm Rheoli Arlwy'r Cymru'r Flwyddyn yng Ngwobrau LACA Cymru Cydnabod Rhagoriaeth ym mis Chwefror.



Y faner werdd am brosiect cymunedol

Mae Parc Eco Cefn Fforest a Phengam wedi cael ei wobrwyo gyda Gwobr Gymunedol y Faner Werdd gan Gadwch Gymru'n Daclus.

Cafodd y wobwr, ei gyflwyno gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, John Griffiths AC, ac mae'n cydnabod mannau gwyrdd ansawdd uchel sy'n cael eu gofalu gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol ac yn ffurfio rhan o gynllun y Faner Werdd sy'n gosod safonau cenedlaethol ar gyfer parciau a mannau gwyrdd o ansawdd.

Mae Parc Eco Cefn Fforest a Phengam yn cael ei redeg mewn partneriaeth â'r cyngor, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Groundwork Caerffili a Ffrindiau'r Parc Eco ac yr unig Barc Eco sy'n cael ei redeg gan y gymuned yng Nghymru.

Dywedodd Cyng Chris Hawker, aelod lleol Cefn Fforest, "Roedd y pwyllgor a'r aelodau wrth eu bodd wrth glywed y newyddion hyn am y wobwr. Mae wedi cymryd llawer o waith caled dros y blynyddoedd i gynnal y parc ar gyfer y cyhoedd."

Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili pump o barciau'r Faner Werdd a dros 40 o ysgolion yn hedfan y Faner Eco Ysgolion.



Bydd y cyllid yn dod â manteision mawr



■ **Bargod** Sinema Aml-sgrin Newydd



■ **Caerffili** Llyfrgell a Chanolfan gwasanaeth cwsmer



■ **Coed Duon** Ailwampio Sefydliad y Glowyr



Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gytuno i gyllid 'cadarn ac uchelgeisiol' ar gyfer 2013/14 mewn Cyfarfod Cyngor Arbennig ar Ddydd Mercher y 27ain o Chwefror.

Er gwaethaf pwysau ariannol anodd sy'n gwynebu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn bwriadu gwneud rhaglen **£52 miliwn** o fuddsoddiad cyfalaf a fydd yn dod a buddion i gymunedau ar draws y fwrdeistref sirol gan gynnwys:

- **£900,000** tuag at brif **weithfeydd lliniaru llifogydd yn Rhisga**
- **Canolfan Hamdden gyffrous o'r radd flaenaf £10m yng Nghaerffili**
- **Datblygiad sinema aml-sgrin £5 miliwn ym Margod**
- **Llyfrgell a Chanolfan Gwasanaeth Cwsmer newydd yng Nghaerffili**
- **Gwella cartrefi £74 miliwn o dan y Safon Ansawdd Tai Cymru**
- **Gweithfeydd ailwampio ar fynd yn Sefydliad y Glowyr Coed Duon**



Dyweddodd Cyng. Keith Reynolds, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, "Mae'n ffrainc gennyf i gynrychioli'r Cyngor gyda chyllid cadarn ac uchelgeisiol sy'n anelu at greu a diogelu swyddi, ysgogi'r economi lleol a diogelu'r bobl archolledig yn ein cymdeithas."

"Gall drigolion gael tawelwch meddwl, diolch i gynllunio cyllidol diogel y cyngor, rydym mewn sefyllfa gref. Mae ein Cynllun Cyllidol Tymor Canolig cadarn yn talu rhandaliadau ac mae gennym lyw ar hyn o bryd o **long gadarn iawn yn ystod yr amserau cyllidol aflonyddus hyn**," ychwanegodd.



Mae'r Cyng. Harry Andrews, Arweinydd y Cyngor yn optimistaidd am y dyfodol diolch i sefyllfa ariannol gryf y sefydliad, "**Caerffili yw un o'r cynghorau lleol blaenllaw yng Nghymru** ac rydym yn credu y bydd y cynnig cyllid hwn yn ein rhoi mewn safle cryf i adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma ac i barhau i gynnig gwasanaethau gwell i'n cymunedau."

Fe wnaeth y cyngor gymeradwyo **2.35%** o gynnydd mewn cyfraddau treth y cyngor. Cafodd y dull hwn ei gytuno yn 2012 ac yn ffurfio rhan o'r cynllun hir dymor i sicrhau gall y cyngor gydbwyso ei llyfrau a chynnal gwasanaethau. Bydd y cynnydd diymhongar hwn, sy'n hafalu i just dros 40.5c yr wythnos ar gyfer eiddo band D, yn ein helpu i gyflawni ein targedau ariannol.

Eleni, Caerffili oedd **y cyngor cyntaf yng Nghymru i weithredu Cyflog Byw**, sydd wedi buddio'n sylweddol mwy na 3,000 o'i gyflogwyr sy'n cael eu talu lleiaf – ac mae darpariaeth cyllid nawr mewn lle i gynyddu'r cyflog byw gan 25c ychwanegol i £7.45 yr awr.

Bydd y cyngor hefyd yn gwneud buddsoddiad ychwanegol o **£1.2m yng Ngwasanaethau Cymdeithasol** i gwrdd â'r pwysau demograffig cynyddol mewn Gwasanaethau Cymdeithasol, yn arbennig yr henoed a phobl fregus sydd angen gofal a chymorth i gadw eu hurddas ac annibyniaeth.

Bydd £80,000 ychwanegol wedi cael ei fuddsoddi i ganiatáu'r cyngor i **rewi pris prydau ysgol** a bydd £100,000 ychwanegol yn **gwella darpariaeth gwasanaeth ieuencid**.

Bydd trigolion yn croesawu'r newyddion fod y cyngor wedi gwneud ymrwymiad i ailgyflwyno **gwasanaeth casglu gwastraff swmpus rhad ac am ddim**.

Mae'r cyllid yn dosbarthu mwy na **£2 miliwn o gyllid ar gyfer ein hysgolion**, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Mae ymdrechion hefyd yn parhau i gael mwy o bobl i hyfforddi a chyflogaeth trwy "**Cynllun Pashort**" arloesol (Menter Prentisiaeth) a **Strategaeth Caffael Safon Ansawdd Tai Cymru**.

Mae'r rhain wedi cael eu dylunio i ddenu pobl i gyflogaeth a dychwelyd, lle mae'n bosib, i gyfleoedd swyddi lleol.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.caerffili.gov.uk

↑ PASBORT I GYFLOGAETH



SC231 GOFAL CYMDEITHASOL
MC578 PEIRIANNYDD
CA923 ARLWYAETH
HE447 IECHYD
EN190 PEIRIANNYDD
MN361 RHEOLWR/WRAIG



Mae cynllun hyfforddiant a chyflogaeth yng Nghaerffili yn arwain y ffordd yng Nghymru. Nod Rhaglen PASBORT Caerffili yw sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau cywir i gael swydd ac mae wedi derbyn hwb ariannol o £372,000.

Datblygwyd y Rhaglen PASBORT gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili, sy'n cynnwys Cyngor Caerffili, Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Fforwm Busnes Caerffili a'r Sector Gwirfoddol. Y nod yw delio â'r gapiau sgiliau lleol drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc.

Mae'r arian sef £372,000 wedi cael ei wobrwyo i'r rhaglen gan fenter Bwrdd Gwasanaethau Lleol Llywodraeth Cymru (LSB) sydd wedi'i gefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'i fwriad yw magsimeiddio trawiad gwasanaethau cyhoeddus trwy brosiectau ar y cyd. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor, tra bod y rhaglen yn cael ei weini mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Dywedodd Cyng Harry Andrews, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili (LSB), "Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i roi pobl ifanc ar lwybr i gyflogaeth drwy leoliadau gwaith o ansawdd a chyfleoedd hyfforddi. Mae'r LSB yn gweithio mewn partneriaeth agos er mwyn helpu i wella ein cymunedau ac mae hon yn enghraifft ardderchog o sut y gallwn gael gafael ar adnoddau i sicrhau manteision gwirioneddol i'n trigolion."

"Mae'r cynllun wedi cael ei gymeradwyo'n llawn gan holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili ac yn arfer gorau y dylid ei efelychu ar draws Cymru," ychwanegodd.

Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, "Mae hon yn enghraifft dda o sut mae cydweithio lleol yn ffynnu

gyda chymorth y Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru.

"Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu pobl ifanc i gymryd y camau nesaf i gyflogaeth drwy lwybrau megis Twf Swyddi Cymru. Mae'n ffordd wych o baratoi pobl yng Nghaerffili yn well i ddod o hyd i waith ac yn chwarae rhan yn ein hymgyrch i fynd i'r afael â thlodi."

Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, Jeff Cuthbert, "Ein prif flaenoriaeth absoliwt yn ystod y cyfnod anodd hwn yw creu swyddi a galluogi twf. Yr wyf yn falch bod drwy ein rhaglen Twf Swyddi Cymru, rydym yn gallu cefnogi'r prosiect arloesol hwn i greu 150 o gyfleoedd gwaith rhwng nawr a mis Rhagfyr 2014."

"Mae cyfleoedd ar gyfer ein pobl ifanc yn cael eu cyfyngu gan y cyflenwad o swyddi a'r gystadleuaeth ar gyfer y rhai sydd ar gael. Mae'n hanfodol ein bod yn darparu pobl ifanc â'r profiad a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y farchnad gystadleuol."

Targedau allweddol y PASBORT yw i:

- Greu isafswm o 150 o gyfleoedd profiad gwaith y/f.
- Greu isafswm o 25 o gyfleoedd prentisiaethau y/f.
- Greu isafswm o 40 o gyfleoedd cyflogaeth y/f.
- Leihau'r nifer o bobl 16-24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) a'r nifer sy'n ddi-waith am fwy na 26 wythnos gan 3%.

Mae mwy na 280 o bobl ifanc wedi ymuno â'r cynllun.

Bydd y cynllun hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gynlluniau i wella cartrefi cyngor dros y blynyddoedd nesaf. Bydd dros £200 miliwn yn cael ei wario ar eiddo ar draws y fwrdeistref sirol yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru a bydd y cynllun PASBORT yn darparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan yn y rhaglen enfawr o waith.

Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili yn arwain y ffordd yn y DU drwy gynnig cannoedd o bobl ifanc y cyfle i ymuno â rhaglen uchelgeisiol Prentisiaeth a Hyfforddiant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mae mwy na 280 o bobl ifanc wedi ymuno â'r cynllun poblogaidd fel lleoliad gwaith, prentisiaeth neu dan hyfforddiant gan eu helpu i gael troed ar yr ysgol yrfa ac ennill profiad gwaith gwerthfawr.

Am fwy o fanylion cysylltwch ag 01443 866752



Mae CBSC eisoes yn gweithredu cynllun prentisiaeth a hyfforddi hynod lwyddiannus.

Gwobrwyo ein Gwirfoddolwyr!

Mae'n amser unwaith eto i enwebu eich arwyr lleol am y gydnabyddiaeth maent yn haeddu gyda Gwobrau Cyflawniad y Sector Gwirfoddol 2013!

Mae'r seremoni wobrwyo, a noddir gan Bapurau Newydd y Campaign, Groundwork Caerffili a Heddlu Gwent, yn cael ei drefnu gan y cyngor a CMGG er mwyn gwobrwyo ein gwirfoddolwyr lleol am eu cyfraniad i'r gymuned.



Y categorïau ar gyfer Gwobrau Cyflawniad y Sector Gwirfoddol ar gyfer eleni yw:

- Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn
- Gwirfoddolwr Torri Record
- Gwirfoddolwr Amgylcheddol
- Gwirfoddolwr Codi Arian
- Gwirfoddolwr a Gefnogir gan Gyflogwr
- Gwirfoddolwr Ysbrydoledig wedi Ymddeol
- Gwirfoddolwr Hŷn
- Gwirfoddolwr Oedolyn Gwasanaeth Ymarferol (Unigolyn)
- Gwirfoddolwr Oedolyn Gwasanaeth Ymarferol (Grŵp)
- Gwirfoddolwr Newydd

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Gwener 26ain Ebrill 2013 - rhaid i wirfoddolwyr unigol a grŵp gwneud eu gwaith o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Bydd y seremoni gwobrwyo yn cymryd lle yn Nhŷ Penallta ar 19eg Mehefin 2013. Ceir ffurflenni enwebu drwy www.gavowales.org.uk neu drwy ffonio **01443 863540**.



Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Yn ddiweddar, lansiwyd strategaeth iechyd meddwl integredig ar gyfer cymunedau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen yng Nghanolfan Gymunedol Deri.


Mae'r pum awdurdod, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddatblygu'r strategaeth. Defnyddiwyd safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth, gofalyddion, staff a rhanddeiliaid wrth lunio'r ddogfen, ac mae'n seiliedig ar egwyddorion sy'n ymwneud ag 'adfer' a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



Mae gan y strategaeth 8 o brif flaenoriaethau:

- Gweithio ochr yn ochr â defnyddwyr gwasanaeth, gofalyddion, staff a chymunedau wrth gynllunio, monitro a darparu gwasanaethau iechyd meddwl.
- Datblygu ystod eang o wasanaethau sy'n cefnogi lles cymunedol.
- Sicrhau bod modd darparu ystod eang o ddewisiadau o ran llety.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn y gymuned yn cynnig cymorth, cyngor a thriniaeth.
- Darparu gwasanaethau arbenigol sydd ar gael i bobl ar yr adeg ac yn y lleoliad y mae arnynt angen y gwasanaethau hynny.
- Hwyluso ymateb priodol gan bob sefydliad i anghenion pobl â dementia.
- Sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau iechyd meddwl.
- Gweithio ar draws y 6 sefydliad i greu set o reolau a strwythur sy'n cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl ardderchog.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch **0808 1002500**



Stopiwch smygu am...

**1 wythnos ac
ARBEDWCH £49**

**1 mis ac
ARBEDWCH £210**

**6 mis ac
ARBEDWCH £1260**

**1 blwyddyn ac
ARBEDWCH £2555**



Mae'r arian sy'n cael ei arbed yn seiliedig ar smygu 20 sigarét y dydd.

Am gymorth cyfeillgar am ddim i roi'r gorau, siaradwch â'ch Meddyg neu cysylltwch â Thîm smygu Cymru ar rif ffôn 0800 085 2219
www.stopsmokingwales.com




healthchallengecaerphilly.org.uk
[@saveapacket2013](https://twitter.com/saveapacket2013)

Twyllwr cais anaf yn cael ei garcharu

Cafodd dyn o Abertyswg ei garcharu'r mis diwethaf ar ôl ei ffeindio'n euog o geisio twyllo arian y trethdalwyr trwy gais anaf personol.

Cafodd Leon Wells sy'n 29 blwydd oed dedfryd carchar am bedwar wythnos am geisio cael dros £40,000 oddi wrth y cyngor ar ôl hawlio ei fod wedi cwmpo ar risiau sydd wedi ei lleoli ar dir sy'n berchen i'r awdurdod lleol.

Dywedodd Cyng. Keith Reynolds, dirprwy arweinydd Cyngor Caerffili, bod yr achos wedi gwneud i glychau larwm ganu ar unwaith. "Mae ein tîm ymchwilio i dwyll yn sgrinio pob cais yswiriant ac yn defnyddio dangosyddion twyll i chwilio am geisiadau amheus. Fe wnaeth cais Mr Wells godi nifer o gwestiynau, a oedd angen mwy o archwilio manwl."



Mae Caerffili yn arwain y ffordd ar gosbi sgamwyr yswiriant twyllodrus, fel y tystir nôl yn 2005 pan wnaeth Matthew Hughes 26 blwydd oed wneud penawdau cenedlaethol ar ôl cael llun ohono yn chwarae pêl-droed dim ond awr ar ôl gwneud cais am anaf ar ôl cwmpo dros geudwll.

"Mae pob ceiniog sy'n cael ei dalu allan i dwyllwyr yn geiniog lai i wario ar wasanaethau lleol hanfodol i bobl Caerffili," dywedodd Cyng. Reynolds. Ers 2006, mae'r ffaith fod Cyngor Caerffili wedi bod mor galed ar geisiadau twyllodrus wedi gweld £12.3m arwyddocaol o'r cyllid ceisiadau yn cael eu rhoi yn ôl i wasanaethau cyhoeddus blaenllaw fel addysg, cynnal a chadw'r priffyrdd a gwasanaethau cymdeithasol.

**Llinell Twyll Anhysbys -
0800 328 9270**

Ysbyty Ystrad Fawr – Blwyddyn Gyntaf

Mae Uned Asesu Feddygol 10 gwely wedi agor yn Ysbyty Ystrad Fawr. Bydd yr uned ar agor drwy'r dydd, bob dydd, a bydd meddyg ar ddyletswydd ynddi ar bob adeg.

Gofal meddygol o'r radd flaenaf

Mae'r uned yn y Ganolfan Achosion Brys Leol ac mae'n derbyn cleifion sy'n cael eu cyfeirio'n uniongyrchol gan Feddygon Teulu, cleifion sydd wedi ffonio'r ambiwlans ar 999, a rhai cleifion sy'n cyfeirio'u hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r cleifion sy'n dod i'r uned yn ddioddef â phoenau yn y frest, mân drawiadau'r galon, problemau resbiradol, asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.

Mae Dr Kai Gazal, sy'n Gymrawd Clinigol mewn Gastroenteroleg, wedi bod yn gweithio yn yr uned ers mis Ebrill. Dywed, "Hyd yn oed i ni fel gweithwyr proffesiynol iechyd mae'r model gofal hwn yn rhywbeth newydd ac mae pawb yma'n gweithio'n galed i sicrhau ei fod yn llwyddo ac yn cynnig y gofal gorau posibl. Mae amrywiaeth eang o brofion diagnostic ar gael yma sy'n golygu y gallwn sganio claf yn gyflym iawn."

Rydym yn cydweithio â staff yr holl ysbytai mawr cyfagos, felly does dim prinder arbenigedd yma. Mae ein meini prawf derbyn yn llym a bydd unrhyw benderfyniad a wnawn ynglŷn â throsglwyddo claf o'r ysbyty hwn yn cael ei wneud er eu lles nhw."

Mae meddygon ymgynghorol yn ymweld â'r wardiau ddwywaith y dydd ac fel arfer bydd cleifion o'r uned yn cael eu trosglwyddo i ward arhosiad byr, ward adsefydlu, ward strôc neu ward i gleifion eiddil yn yr ysbyty.

Mae Dr Justin Okeke yn Gofrestrydd Arbenigol ym maes Gofal Henoed sydd wedi bod yn gweithio yn yr uned ers mis Awst. Dywed, "Mae ein cyfradd rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn dda iawn yma, ac mae tua 40% o'r cleifion a asesir yn yr uned asesu feddygol yn cael eu hanfon adref gyda phhecyn gofal priodol cyn pen 24 awr. Fodd bynnag, mae gennym amrywiaeth o ddewisiadau yma yn yr ysbyty, ac mewn ysbytai eraill hefyd, os bydd angen triniaeth arbenigol bellach ar glaf. Rydw i'n mwynhau gweithio yma ac rydw i'n dod ar draws llawer o wahanol gyflyrau sy'n diwallu fy anghenion hyfforddi."

Mae Dr Gazal hefyd yn Llywydd Ystafell Giniawa'r Meddygon yn Ysbyty Ystrad Fawr, "Un o'r pethau gorau am weithio mewn ysbyty o'r maint hwn yw



eich bod yn cael cyfle i wneud llawer o bethau, fel ymdrin â materion rheoli er enghraifft, a thrwy hynny yn dysgu am bob agwedd ar y gwaith. Rydym hefyd yn ffodus bod gennym rai arbenigwyr ardderchog yn yr ysbyty hwn, er enghraifft mae'r Tim Gofal Lliniarol gystal ag unrhyw un a welais erioed.

Blwyddyn Gyntaf Lwyddiannus Cafodd mwy na 100,000 o gleifion eu trin yn Ysbyty Ystrad Fawr yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

Gwelwyd y nifer fwyaf o gleifion yn yr Uned Mân Anafiadau sydd ar agor drwy'r dydd, bob dydd. Cafodd mwy na 28,000 o bobl eu trin ar gyfer mân anafiadau yn ystod y flwyddyn.

Mae staff yr Uned Asesu Feddygol yn asesu tua 470 o gleifion bob mis ar gyfartaledd.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Gwasanaeth Meddygon Teulu y tu allan i oriau gyfanswm o 16,858 o alwadau.

Ganwyd 320 o fabanod yn yr Uned Geni dan Arweiniad Bydwraig yn ystod 10 mis cyntaf 2012, o'i gymharu â 271 yn Ysbyty'r Glöwyr Caerffili yn ystod yr un cyfnod yn 2011.

Mae'r clinigau cleifion allanol yn gweld dwywaith nifer y cleifion ag a welwyd yn flaenorol yn Ysbyty'r Glöwyr - sef tua 4,000 o apwyntiadau cleifion allanol bob chwarter, o'i gymharu â 2,000 gynt.

Mae nifer yr apwyntiadau i gleifion allanol sy'n blant ddwywaith yn uwch hefyd ac ar hyn o bryd mae bron â chyrraedd 2,500 am y flwyddyn.

Mae'r ysbyty hefyd yn cynnig gwasanaethau nad oeddent ar gael yn y fwrdeistref sirol o'r blaen, megis gwasanaethau rhiwmatoleg i gleifion allanol, a ddarparwyd yng Nghaerdydd yn flaenorol. Hefyd cafwyd 46,000 o ymweliadau â'r ysbyty ar gyfer therapiau ffisiotherapi / adsefydlu a therapiau lleferydd ac iaith.

Mae llawdriniaeth orthopedig, llawdriniaeth gyffredinol a llawdriniaeth gynecoleg hefyd ar gael.

Mae'r ysbyty hefyd yn cynnal clinigau Offthalmoleg erbyn hyn a bydd llawdriniaeth ar y Glust, y Trwyn a'r Gwddf ar gael yn y dyfodol agos. Mae'r cynlluniau yn cynnwys cyflawni tua 4,300 o lawdriniaethau'r flwyddyn.

Mae darparu ystafelloedd sengl wedi golygu bod yr ysbyty'n cynnig mwy o breifatrwydd, urddas a

thawelwch i gleifion sy'n eu helpu i wella. Mae ymdrechion i reoli heintiau wedi gwella hefyd ac o ganlyniad mae nifer yr achosion o Clostridium Difficile wedi haneru i 24 o achosion rhwng Tachwedd 2011 a Hydref 2012, o'i gymharu â 43 o achosion yn ystod yr un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol yn Ysbyty'r Glöwyr Caerffili ac Ysbyty Ystrad Mynach.

Uned Mân Anafiadau

Yn ystod y flwyddyn gyntaf y bu'r ysbyty ar agor cafodd tua 9,000 yn rhagor o bobl eu trin yn Ysbyty Ystrad Fawr na chan y gwasanaeth blaenorol yn Ysbyty'r Glöwyr Caerffili ac mae'r ysbyty ar agor drwy'r dydd, bob dydd.

Caiff Ymarferwyr Nyrsio Brys eu hanfon i weithio yn uned damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Gwent ar sail rota dyletswydd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu sgiliau i'r lefel uchaf posibl. Bydd amserau aros yn yr Uned Mân Newidiadau yn llawer llai nag yn yr Unedau Damweiniau ac Achosion Brys prysur.

Disgrifir mân anafiadau fel anafiadau a gafwyd yn ystod y 48 awr ddiwethaf, ac wedi'r cyfnod hwnnw fynd heibio dylai cleifion fynd at eu Meddyg Teulu neu Nyrs Meddygfa.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Toriadau, crafiadau a chleisiau
- Clwyfau diweddar (ers 48 awr) a allai fod angen eu gludo, eu pwytho neu ddefnyddio steri-strips arnynt.
- Mân losgiadau a sgaldiadau.
- Torasgwrn, tynnu a straenio.
- Imiwneiddio rhag tetanws ar ôl anaf.
- Tynnu darnau estron o lygaid, y trwyn neu glustiau.
- Mân broblemau llygaid gan gynnwys tynnu lensys.
- Pigiadau gan bryfaid neu frathiadau gan anifeiliaid eraill.
- Mân anafiadau i'r pen (heb fod yn anymwybodol).
- Tynnu modrwyau, clustlysau neu stydiau.
- Anafiadau i freichiau neu goesau lle gall y claf gynnal pwysau'r corff ar ei droed neu symud ei fysedd.



GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Health Board

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw'r enw gweithredol ar Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Rhifau Defnyddiol

Ysbyty Ystrad Fawr: 01443 802200

Galw Iechyd Cymru: 0845 46 47

GP - Tu Allan i Oriau: 0845 600 131

Llinell Deintyddol: 01633 488389



Diwrnod ym mywyd Warden Diogelwch Cymunedol

Fel Warden Diogelwch Cymunedol, mae Don Pearson yn aelod hanfodol o'r tîm sy'n gweithio i sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lle mwy diogel a dymunol i fyw, gweithio ac ymweld.

Mae Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol yn bobl mewn gwisg swyddogol sy'n bresennol yn ein cymunedau ac sy'n rhoi sicrwydd i drigolion, ac maent yn lleihau lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ategu'r gwasanaethau a ddarperir eisoes gan yr heddlu, ceidwaid a mathau eraill o wardeiniaid.

Dyma sut y mae Don yn treulio ei ddiwrnod fel rheol:

1:30pm Y peth cyntaf rwy'n ei wneud yw sicrhau bod yr holl gyfarpar diogelu personol sydd gen i'n gweithio, er enghraifft, fy radio a'r camera teledu cylch cyfyng yr ydym yn ei wisgo ar ein siacedi llachar.

2:15pm Rwy'n gyfrifol am fynd o gwmpas pum ward, sef Coed Duon, Cefn Fforest, Pontllan-fraith, Ynys-ddu a Gorllewin Rhisga. Byddaf yn gyrru i'r wardiau mewn fan y mae arwydd Bwrdeistref Sirol Caerffili Saffach i'w weld arni.

2:30pm Byddaf yn sicrhau bod pobl yn fy ngweld yn mynd o gwmpas ardaloedd rwy'n gwybod eu bod yn achosi problemau.

3:30pm Gan ddefnyddio fy llyfr poded, byddaf yn nodi unrhyw broblemau y byddaf yn dod ar eu traws. Gallant gynnwys achosion o ysgrifennu graffiti a thipio sbwriel yn anghyfreithlon, problemau â goleuadau stryd neu broblemau'n ymwneud â'r priffyrdd.

4:30pm Byddaf yn ymweld â'r parciau a'r caeau chwarae yn fy ward er mwyn sicrhau bod perchnogion cŵn yn ymddwyn yn gyfrifol a'u bod yn codi baw eu ci. Os byddant yn dal i adael i'w ci wneud ei faw yn y parciau, byddant yn cael hysbysiad cosb benodedig o £75.

5:30pm Byddaf yn rhoi hysbysiadau cosb benodedig i aelodau o'r cyhoedd sy'n gollwng sbwriel ar lawr. Unwaith eto, mae'r ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn yn arwain at ddirwy o £75 yn y fan a'r lle.

6:00pm Byddaf yn mynd yn ôl i'r swyddfa i gael rhywbeth i'w fwyta ac i barhau i gyflawni unrhyw ddyletswyddau gweinyddol.

7:00pm Byddaf yn ôl yn y fan yn gyrru i gynifer ag sy'n bosibl o'r ardaloedd rwy'n gwybod eu bod yn achosi problemau yn fy wardiau.

8:00pm Byddaf yn sgwrsio â phobl ifanc sy'n sefyll mewn gangiau yn yr ardaloedd sy'n achosi problemau yn fy wardiau.

9:00pm Os byddaf yn dod ar draws pobl ifanc dan oedran sy'n yfed alcohol ar y stryd, byddaf yn mynd â'r alcohol oddi arnynt ac yn cymryd eu manylion. Yna, byddaf yn sôn am unrhyw broblemau sydd y tu hwnt i'm rheolaeth i wrth Heddlu Gwent, ac yn cyfeirio unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol at y system pedwar cyfle ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

9:45pm Byddaf yn dychwelyd i'r swyddfa ac yn rhoi'r holl gyfarpar diogelu personol i gadw'n ddiogel. Yna, byddaf yn llenwi ffurflen adroddiad dyddiol ac yn darllen fy negeseuon e-bost cyn mynd adref am 10:00pm.



DIOGELWCH CYMUNEDOL YN RECRIWTIO WARDEINIAID IAU

Mae Partneriaeth Caerffili Saffach wedi bod yn recriwtio Wardeiniaid Iau i'w cynorthwyo wrth gadw Bwrdeistref Sirol Caerffili yn le saffach a hapusach.

Mae disgyblion Blwyddyn 4 o ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol wedi bod yn cyfarfod â Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol a darganfod beth mae'n cymryd i gadw strydoedd Caerffili yn ddiogel ac yn rhydd o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dyweddodd Cyng. Dave Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Hamdden a'r Gymuned, "Cynllun gwych yw hwn sy'n anelu at addysgu ein pobl ifanc am waith hanfodol y mae Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol yn eu gwneud. Bydd yn annog pobl ifanc ar draws y fwrdeistref sirol i wneud addewid i beidio gollwng sbwriel ac i barchu eraill drwy beidio cymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol; neges y gallent mewn amser gymryd adref i'w teuluoedd a'u cymuned, o ganlyniad i hyn, bydd Caerffili yn le hapusach, saffach i bawb."

EWCH I eich.caerffili.gov.uk/bcsaffach AM FWY O WYBODAETH AM BARTNERIAETH CAERFFILI SAFFACH.

Mynwentydd Taclus

Dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd mewn achosion o 'bersonoli bedd' yn y fwrdeistref sirol, lle mae eitemau anawdurdodedig megis goleuadau solar, clychau gwynt, addurniadau a ffensys wedi cael eu gosod ar feddau.

Mae pryderon wedi'u mynegi am yr arfer hwn ac mae'r cyngor wedi derbyn nifer o gwynion. Yn sgil hyn, cytunodd yr awdurdod i fabwysiadu 'Polisi Lawntiau' yn ei fynwentydd fel bod ymddangosiad beddau yn gyson ac yn briodol.

Y llynedd, wynebodd y Cyngor wrthwynebiad gan deuluoedd anwyliad sydd wedi eu claddu ym Mynwent Bedwellte dros y ffordd roedd Polisi Lawntiau newydd yn cael ei weithredu. Cytunodd yr awdurdod i adolygu'r dull, ond bellach cytunwyd y bydd y polisi yn parhau i gael ei ddefnyddio ym mhob mynwent sy'n cael ei redeg gan y cyngor.

"Mae hwn yn fater sensitif iawn, ond credwn yn gryf y dylai mynwent fod yn lle o fyfyrddod tawel mewn amgylchedd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac urddasol", meddai Cynghorydd Dave Poole. "Rydym yn cydnabod bod gwrthwynebiad i'n dull gweithredu, felly rydym yn awyddus i fynd i'r afael â'r mater mewn ffordd na fydd yn achosi tramgwydd neu drallod i unrhyw deuluoedd."

Bydd arolygiadau'n cael eu cynnal dros y misoedd nesaf ac, os yw'n briodol, bydd llythyron yn cael eu hanfon at berthnasau yn gofyn iddynt yn barchus i symud unrhyw eitemau anawdurdodedig sydd wedi cael eu nodi.

Mae personoli beddau hefyd yn achosi risg iechyd a diogelwch i staff ac ymwelwyr oherwydd y peryglon baglu a achosir gan y ffensys bach ac addurniadau ac ati. Maent hefyd yn achosi problemau yn ystod torri glaswellt a chynnal a chadw safle'r fynwent.



Safer Caerphilly County Borough
Bwrdeistref Sirol Caerffili Saffach

£400,000 i wella eich cymuned

Y mân bethau sy'n gwneud y gwahaniaeth - a dyna pam rydym wedi buddsoddi £400,000 oddi wrth y Rhaglen Ased Cymunedol i helpu gwella ein trefi a'n pentrefi.

Ym mharc Tredegar, Rhisga, mae man digwyddiadau gwell wedi cael ei greu gyda thrydan, dŵr a gwaith celf. Yn ogystal â mwy o seddi, mae arhosfan bws newydd a chyfleusterau tai bach gwell.

Yng Nghaerffili, mae diogelwch wedi gwella ym Mharc Morgan Jones gyda gatiau addurnol sydd wedi lleihau'r nifer o ddigwyddiadau ymddygiad anghymdeithasol a sbwriel yn y parc.



Mae diwylliant Caffi yn ffynnu ar Stryd Pentrebane yn dilyn arwyneb heol newydd, goleuadau stryd newydd a lleoli dodrefn stryd.

O amgylch y fwrdeistref, mae prosiectau plannu wedi bod yn digwydd ac mae 'Tîm Ymateb Cymunedol' arbennig wedi bod yn tendio i eitemau nad ydynt fel arfer yn cael eu gweld mewn cyllidebau prif ffordd eraill. Nid dim ond y trefi sy'n elwa o'r cyllid, mae dau swyddog yn ymrwymedig i ddatrys problemau parhaol a ddarganfyddwyd mewn ardaloedd gwledig ar draws y fwrdeistref.

Dyweddodd Cyng. David Poole, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, "Mae'r dosbarthiadau hyn o gyllid yn adlewyrchu uchelgeisiau'r cyngor o gadw'r fwrdeistref sirol yn lân a deniadol ac i roi cymorth i gymunedau lleol yn eu hymdrechion i gynnal a gwella eu hardal leol."



Useful Numbers / Rhifau Defnyddiol

MAIN SWITCHBOARD PRIF SWITSFWRDD ☎ 01443 815588	Children's Social Services Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ☎ 0808 100 1727
Minicom Minicom ☎ 01443 873626	Consumer Advice Cyngor i Defnyddwyr ☎ 01495 235111
Emergency number for all services: Rhif argyfwng ar gyfer pob gwasanaeth: ☎ 01443 875500 (Out of hours only - Allan o Oriau yn unig)	Council Tax Enquiries Ymholiadau Treth y Cyngor ☎ 01443 863002
Adult's Social Services Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ☎ 0808 100 2500	Furniture Recycling Ailgylchu Dodrefn ☎ 01685 846830
StreetPride Balchder Stryd ☎ 01443 866566	Housing & Council Tax Benefits Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor New Claims: Rawlau Newydd: 01443 866567 Existing Claimants: Rawlwy Presennol: 01443 864099

Housing Benefit Reduction

The UK government is reducing the amount of housing benefit some people can claim based on the size of the rented property and the people who live there.

These new rules will only apply to social landlord tenants of working age (working age is where a person has not yet reached pension credit age) & will be effective from the 1st April 2013.

If you have more bedrooms than this new rule allows this is called "under occupying". If you are **under-occupying by 1 bedroom** your housing benefit will be **reduced by 14% of the rent amount** and if you are **under-occupying by 2 or more bedrooms** your housing benefit will be **reduced by 25% of the rent amount**.

You may have already received a letter from the housing benefit section indicating that you will be affected by these changes. We understand that this will be an uncertain and worrying time for some tenants. If you think you are going to be affected and would like advice you may want to contact the number of your landlord provided below.

Here to help YOU - Who to contact

Council Tenants
Call: **01495 235600**
e-mail: rents@caerphilly.gov.uk

Tenants of a Registered Social Landlord
Contact your landlord. The main ones are listed below:

Wales and West Housing Association	Call: 0800 0522526
United Welsh Housing Association	Call: 0800 2940195
Linc-Cymru Housing Association	Call: 029 2047 3767
Charter Housing Association	Call: 01633 212375
Aelwyd Housing Association	Call: 029 2048 1203

Further useful information can be found on the Council website:
www.caerphilly.gov.uk/underoccupation
www.caerphilly.gov.uk/benefitschanges

What's ON / Digwyddiadau

www.caerphilly.gov.uk/events • www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk • Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk



Powering the World - Looking at Welsh Industry through Archives

Darparu pŵer i'r byd - Edrych ar ddiwydiant yng Nghymru trwy'r archifau

12/03/2013 - 14/04/2013 - 10am
Winding House • Tŷ Weindio

A travelling exhibition organised by the Archives and Records Council Wales. What can documents and archives tell us about Wales' industrial past?

Arddangosfa deithiol a gaiff ei threfnu gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru. Beth y gall dogfenau ac archifau ei ddweud wrthym am offennol diwydiannol Cymru?

01443 822666

Using the Cloud with Confidence • Defnyddio'r 'Cwmwl' yn hyderus

13/03/2013 - 8am
Calon Restaurant, Britannia House, Caerphilly Bus • Bwyty Calon, Tŷ Britannia, Parc Busnes Caerffili

A Caerphilly Business forum event - Join us for an overview of how businesses can affectively use The Cloud with Steve Lloyd, Channel Manager for Dell Sonic Wall and Andrew Beer, Company Director at Excellence IT. This is a FREE event for Caerphilly Business Forum members. £10 for non-members.

Digwyddiad a drefnir gan Fforwm Busnes Caerffili - ymunwch â ni i weld sut y gall busnesau ddefnyddio'r 'Cwmwl' yn effeithiol, yng nghwmni Steve Lloyd, Rheolwr Sianel gyda Dell Sonic Wall ac Andrew Beer, Cyfarwyddwr Gwmni Excellence IT. Mae hwn yn ddigwyddiad RHAD AC AM DDIM i aelodau Fforwm Busnes Caerffili, ac mae'n costio £10 i'r sawl nad ydynt yn aelodau.

07901 303439

Caerphilly Delivers!

You can help shape the future of the Caerphilly county borough by giving us your views on a major 5 year plan.

A draft strategic delivery plan has been produced by the Caerphilly Local Service Board setting out how the public, private and voluntary sector organisations will work together with communities.

Visit www.caerphilly.gov.uk/communityplanning/caerphillydelivers

An Evening with Terry Walton • Noson yng nghwmni Terry Walton

15/03/2013 - 6pm
Abercarn Library • Llyfrgell Abercarn

An evening with Terry Walton with Radio 2's resident gardener. Free admission by ticket only. Please contact the library for tickets and further details.

Noson yng nghwmni Terry Walton, garddwr preswyl Radio 2. Mynediad yn rhad ac am ddim trwy docyn yn unig. Cysylltwch â'r llyfrgell i gael tocynnau a manylion pellach.

01495 244393

Acoustic Sessions at the 'Stute • Sesiynau Acwstig yn Sefydliad y Glowyr

15/03/2013 - 8pm
Blackwood Miners Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon

Chill out, relax and enjoy an evening of live music in the intimate setting of The 'Stute bar with Canadian Fingerstyle Champion 2007 Craig D'Andrea.

Tickets £8.00/£11.00 on the day.

Cyfle i ymlacio a mwynhau noson o gerddoriaeth fyw ym mar cartrefol Sefydliad y Glowyr yng nghwmni Craig D'Andrea sy'n Bencampwr Plycio Gitar yng Nghnanada. Tocynnau: £8.00 / £11.00 Ar y diwrnod.

01495 227206

Bargoed Open Air Cinema • Sinema Awyr Agored Bargoed

22/03/2013 - 7.30pm
Bargoed (Emporium Car Park) • Bargoed (Maes Parcio'r Emporium)

The popular outdoor cinema returns to Bargoed. The evenings have provided great entertainment for the whole family. Bring your picnic, blanket & chair and sit back with the family to enjoy the open-air cinema experience. Free Event. Children under 16 must be accompanied by an adult.

Mae'r sinema boblogaidd hon yn yr awyr agored yn dychwelyd i Fargod. Mae'r nosweithiau wedi darparu adloniant ardderchog i'r teulu cyfan yn y goffennol. Dewch â'ch picnic, eich blanced â'ch cadair eich hun ac eisteddych yn ôl gyda'r teulu i fwyhau'r profiad o fod mewn sinema awyr agored. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim. Rhaid i blant dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn.

02920 880011



Easter Spring Flower Basket Making • Creu Basgedi Blodau'r Gwanwyn ar gyfer y Pasg

23 - 26/03/2013 - 11am
Cwmarn Forest Drive • Rhodfa Coedwig Cwmarn

Suitable for ages 6 plus.

Yn anaddas i blant dan 6 oed.

01495 272001

Easter Pottery Workshop • Gweithdy Crochenwaith y Pasg

27/03/2013 - 11am
Cwmarn Forest Drive • Rhodfa Coedwig Cwmarn

Suitable for ages 6 plus.

Yn anaddas i blant dan 6 oed.

01495 272001

Easter Rag Flower Decorations • Creu Blodau o Gadachau ar gyfer y Pasg

28/03/2013 - 1pm
Cwmarn Forest Drive • Parc Cwm Darran

01495 272001

Farm open Day • Hwyl y Pasg ar y Fferm

29/03/2013 - 1pm - 3pm
Ynys Hywel Farm • Fferm Ynys Hywel

01495 235219

Easter Eggs and April Fool! • Wyau Pasg a Ffŵl Ebrill!

29/03/2013 - 10am
Winding House • Tŷ Weindio

01443 822666

Easter Eggstravaganza! • Miri Wyau Pasg!

29/03/2013 - 10am
Llancaich Fawr Manor • Maenordy Llancaich Fawr

01443 412248



Easter Bunny Workshop • Gweithdy Cwningod Pasg

30/03/2013 - 10am
Cwmarn Forest Drive • Rhodfa Coedwig Cwmarn

Suitable for ages 6 plus.

Yn anaddas i blant dan 6 oed.

01495 272001

Easter Egg Hunt! • Helfa Wyau Pasg!

31/03/2013 - 10am
Cwmarn Forest Drive • Rhodfa Coedwig Cwmarn

01495 272001

Make a Bug Box! Creu blwch i ddal chwilod!

03/04/2013 - 2pm-4.30pm
Aberargoed Grasslands Education Centre • Canolfan Addysg Glaswelltiroedd Aberargod

Open your very own bed and breakfast by making a fantastic bug box and find out more about these fantastic creatures. For further details please telephone Aberargoed Grasslands Education Centre.

Dyma gyfle i ddysgu mwy am chwilod trwy agor eich llety gwely a brecwast eich hun a chreu blwch ardderchog i ddal y creaduriaid gwych hyn. I gael rhagor a fanylion, dylech ffonio Canolfan Addysg Glaswelltiroedd Aberargod.

01443 834317

Caerphilly Challenge! Her Caerffili!

11/05/2013 - 7.30pm

Following 2012's hugely successful Caerphilly Challenge Series with the Twmbarlwm Trek, the challenge continues along the equally famous Rhymney Valley Ridge with its challenging terrain and commanding views. From a 1 mile stroll along the banks of the Rhymney river to taking up the challenge of the monstrous 22 mile 'Ridgeway', there will be a Challenge walk to suit you - no matter how fit you are!

Yn dilyn Cyfres Her Caerffili hynod lwyddiannus 2012 gyda'r Daith Twmbarlwm, mae'r her yn parhau ar hyd Cefn Cwm Rhymni enwog gyda'r dir heriol a golygfeydd awddurdodol. O dro 1 filltir ar hyd glannau'r afon Rhymni i dderbyn her 'Cefnffordd' anferthol 22 milltir, fe fydd yna daith heriol addas i chi - beth bynnag eich ffitrwydd!

Visit: Your.Caerphilly.gov.uk/countryside/caerphillychallengeseries

Ewch i: Your.Caerphilly.gov.uk/countryside/caerphillychallengeseries

01495 235092 / 0778 8547350



FOSTER APPEAL

The Council needs foster carers to care for children over the age of 10.

We offer extensive support, comprehensive training and attractive fees. If you have room in your home and time in your life, why not call **0800 587 5664** or visit www.caerphilly.gov.uk/fostering

Council Tax Benefit Changes

As from 1st April 2013, as a result of UK legislation, council tax benefit is being abolished and the responsibility for council tax support has passed to the Welsh Government.

The Welsh Government has introduced a national scheme which the council have adopted. Although the funding from the UK Government has been reduced, the Welsh Government have met the shortfall of £22 million for 2013/14. This will ensure that those eligible will continue to receive up to 100% of the agreed entitlement for 2013/14. The Welsh Government will be reviewing both the scheme and the levels of funding for 2014/15.

Further details are available on our website - www.caerphilly.gov.uk

Cord Warning

Trading Standards are warning parents of toddlers and young children of the serious safety risks associated with window blinds operated by looped, hanging cords.

Free hanging looped cords can easily get wrapped around the necks of young children who can become accidentally strangled. Parents may not realise what is happening until it's too late.

Blinds manufactured since July 2011 should be safe in that they should not have any hazardous looped cords and they should be fitted with a child resistant safety device. Unfortunately though, large numbers of old window blinds may still exist in people's homes.

Steps you can take to help make your home safer include:-

- Install blinds that do not have a cord, particularly in a child's bedroom.
- Do not place a child's cot, bed, playpen or highchair near a window.
- Pull cords on curtains and blinds should be kept short and kept out of reach.
- Tie up the cords or use one of the many cleats, cord tidies, clips or ties that are available.
- Do not hang toys or objects that could be a hazard on the cot or bed.
- Don't hang drawstring bags where a small child could get their head through the loop of the drawstring.

For more information visit www.rospa.com/blindcords